# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**10:30 y.b., DYDD LLUN, 9FED MEHEFIN, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)***

Pwynt Cyswllt

**Iwan Edwards**

**01286 679018**

**iwanedwards@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 30 Mai 2025)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Beth Lawton
Dewi Owen

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
Hywel Eifion Jones
Mark Jones
Non Gibson
Sonya Khade

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym mam y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2025 a 7 Ebrill 2025 fel rhai cywir.

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/25** 10 - 29

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro

**6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU** 30 - 32

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau

**7. HUNAN ASESIAD** 33 - 38

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro

**8. HYFFORDDIANT CYNGHORAU CYMUNED** 39 - 45

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau

## 9. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL MEWN CYFARFODYDD 46 - 51

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau

## 10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeh eithriedig fel y'l diffnnir ym mharagraff 18C, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llwyodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd ei fod yn ymwneud â thrafodion y Pwyllgor Safonau wrth ddod I benderfyniad ar fater a gyfeiriwyd ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Credir na ddylid datgelu'r wybodaeth rhag ofn i unrhyw gyhoeddusrwydd ynglyn a'r achos ragfarnu seffyllfa'r Cynghorydd cyn unrhyw wrandawiad. Darperir y wybodaeth ar sail gyfrinachol gan yr Ombwdsmon a byddai ei ddatgelu yn niwediol i weithriad y broses o ymchwilio I gwynion odan Ddeddf Lwyodraeth Leol 2000. Credwyd y byddai budd cyhoeddus sylweddol yn cynnal proses ymchwilio mewn modd deg a phriodol a felly y dylai y mater fod yn eithriedig.

## 11. PENDERFYNIAD YR OMBWDSMON AR GWYN YN ERBYN AELOD O GYNGOR CYMUNED

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau

## PWYLLGOR SAFONAU, 17/02/25

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones a Dewi Owen.

**Aelodau Annibynnol:** Mr Hywel Eifion Jones (Cadeirydd), Mr Aled Jones a Mr Dave Wareing.

**Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol:** Y Cynghorydd Menna Trenholme (Dirprwy Arweinydd y Cyngor)

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Sioned Mai Jones ac Iwan Edwards (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

Gan fod pedwar aelod etholedig a tri aelod annibynnol yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod, ymneilltuodd y Cynghorydd Beth Lawton o'r cyfarfod er mwyn sicrhau cworwm.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Mr Mark Jones

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**3. MATERION BRYS**

Rhoddodd y Swyddog Monitro ddiweddariad ar y trefniadau ar gyfer penodi aelodau newydd i seddi gwag y Pwyllgor. Nodwyd fod dwy sedd wag ar y pwyllgor erbyn hyn a bod y rhain wedi cael eu hysbysebu yn gyson ar wefan yr awdurdod ers cyfnod, ond yn anffodus eu bod yn cael trafferth llenwi'r seddi. Soniwyd fod ymdrechion i gynyddu cyflymder a dwyster y gwaith yn parhau, i geisio llenwi'r seddi gyda'r bwriad o benodi aelodau newydd yn y Cyngor llawn ym mis Mai.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 o Dachwedd, 2024 fel rhai cywir.

**5. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (Cymru) 2021 ("Y DDEDDF") DYLETSWYDD ARWEINYDDION GRWPIAU GWLEIDYDDOL A'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro yn manylu ar ddau brif ddyletswydd mae'r ddeddf yn ei osod ar Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol a safonau ymddygiad Aelodau Grwpiau. Nodwyd mai bwriad cyflwyno'r adroddiad yma oedd rhoi cyfle i'r Pwyllgor gyfarfod gydag arweinyddion grwpiau yn ffurfiol i gael trafodaeth o gwmpas y

protocol a'i weithrediad. Yn ogystal, rhoddwyd cyfle i osod stondin (?) ar sut mae'r pwyllgor yn symud ymlaen gyda gweithredu'r ddyletswydd yma.

Nododd y Swyddog Monitro mai amcan y protocol yw ymateb i ddyletswydd statudol sydd gan yr arweinyddion grwpiau o gwmpas hyrwyddo ymddygiad da ymhlith aelodau. Esboniwyd bod hyn yn golygu cyd-weithio rhwng y Pwyllgor Safonau a'r Arweinyddion ac y bydd hyn yn gam cadarnhaol i gefnogi ymddygiad aelodau ac i ddatrys materion yn gynnar.

Soniwyd nad oedd rhai aelodau wedi mynychu'r cyrsiau craidd hyfforddi, fel y cwrs cod ymddygiad a'r cwrs llesiant. Cydnabuwyd y pwynt yma, a nodwyd bod eitem 5 o'r Meini Prawf yn gofyn i'r Arweinyddion Grwpiau i gefnogi presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi. Gofynnwyd i'r Swyddog Monitro adael i Arweinwyr y grwpiau gael rhestr o'r aelodau sydd ddim wedi mynychu'r cyrsiau hyfforddi a gobeithiwyd y gallai'r Arweinwyr rhoi hwb i'r rhai sydd ddim wedi. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro bod hyn yn fwriad, ac i atgyfnerthu'r pwynt esboniwyd bod cwrs llawn wedi ei redeg ar y cod ym mis Rhagfyr y flwyddyn ddiwethaf. Nodwyd fod y cwrs wedi cael ei recordio a'i fod ar gael i'r aelodau ei wylio.

**PENDERFYNIAD**
**Adolygu gweithrediad y ddyletswydd a chadarnhau trefniadau adrodd wrth symud ymlaen.**

## 6. RHAGLEN WAITH ARFAETHEDIG 2025-26

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Swyddog Monitro yn cynnig rhaglen ddrafft ar gyfer gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2025-26. Nodwyd fod adolygiad o'r trefniadau hyfforddiant wedi ei gynnwys ar y rhaglen waith, nid yn unig y cyrsiau sydd yn ofynnol rŵan ond unrhyw rai newydd hefyd. Hefyd, soniodd y Swyddog Monitro ei fod eisiau edrych ar gofrestrau buddiannau i weld os oes angen gwneud unrhyw addasiadau.

**PENDERFYNIAD**
**Nodi a derbyn y Rhaglen Waith Arfaethedig**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn amgau adroddiad blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2023-2024. Nodwyd nad oedd themâu sylfaenol i'w trafod ac mai lleiafrif bychan o aelodau sydd yn cyrraedd y panel, gyda mwyafrif yr aelodau yn cydymffurfio gyda'r cod.

Nododd y Swyddog Monitro fod Cadeirydd newydd wedi ei phenodi i'r panel dyfarnu sef Meleri Tudur, cyfreithwraig o Wynedd.

Diolchwyd i'r Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau am ei waith ar y broses apêl gan nodi fod rhesymau'r Pwyllgor Safonau wedi cael eu rhestru fel rhai digon da i'r Llywydd benderfynu nad oedd sail i apêl. Ategwyd hyn gan y Swyddog Monitro a nodwyd fod yn cael ei ddefnyddio fel model ar sut i ddrafftio penderfyniad, a hefyd fel templed gan bwyllgorau safonau eraill.

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.**

**8.** **HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn cyflwyno gwybodaeth i'r pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsman ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau oddi wrth yr Ombwdsmon ers yr adroddiad blaenorol.

**PENDERFYNIAD**
**Nodi'r wybodaeth**

9. **HYFFORDDIANT I GYNGHORAU CYMUNED**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau ar hyfforddiant i gynghorau Cymuned. Nodwyd fod hyfforddi cynghorwyr cymuned ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad yn rhan o swyddogaeth y Pwyllgor Safonau ac mae'r Pwyllgor wedi adnabod yr angen i gynnal hyfforddiant o'r fath.

Soniwyd fod sesiwn eisoes wedi ei baratoi a'i dreialu ar gyfer cynghorau cymuned gyda'r amcan i alluogi aelodau a chlercod i gael dealltwriaeth o hanfodion y Cod Ymddygiad, arfogi aelodau i weithredu o fewn y fframwaith ac amlygu lle i gael arweiniad a gwybodaeth bellach. Bydd y sesiynau'n cael eu cynnal yn rhithiol drwy gyfrwng 'Zoom' ac mae dau ddyddiad wedi eu trefnu hyd yn hyn. Nodwyd hefyd fod y sesiynau yn cael eu recordio a'u gosod ar wefan y Cyngor ac felly bydd modd eu gwylio ar unrhyw adeg.

Mynegwyd pryder gan aelod am yr amserlen, yn benodol faint o rybudd y gellir ei roi ymlaen llaw i allu mynychu'rsesiynau. Cydnabuwyd hyn gan egluro mai'r sesiynau cyntaf yw'r rhain ac os oes yna fwy o alw am y sesiynau yna bydd modd cynnal mwy ohonynt.

**PENDERFYNIAD**
**Nodi'r wybodaeth**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30yb a daeth i ben am 11:20yb

**EXTRAORDINARY MEETING OF THE STANDARDS COMMITTEE, 07/04/2025**

**Present**:-

**Elected Members:-** Councillors Beth Lawton and Dewi Owen.

**Independent Members:** Mr Hywel Eifion Jones (Chair), Mr Aled Jones and Mr Mark Jones

**Community Committee Member:** Mr Richard Parry Hughes

**Also in Attendance:** Sion Huws (Propriety and Elections Manager), Rhodri Jones and Iwan Edwards (Democracy Services Officers).

As four elected members and only three independent members were present at the beginning of the meeting, Councillor Anne Lloyd Jones withdrew from the meeting to ensure a quorum.

**1. APOLOGIES**

An apology was received from Iwan Evans (Monitoring Officer)

**2. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST**

None to note.

**3. URGENT ITEMS**

None to note.

**4. APPLICATION FOR DISPENSATION - COUNCILLOR MORWENNA PUGH, FFESTINIOG TOWN COUNCIL**

Submitted – the report of the Propriety and Elections Manager requesting the committee to consider and make a decision on an application for dispensation by Councillor Morwenna Pugh, a member of the Ffestiniog Town Council. It was confirmed that the applicant had confirmed that she would not be able to attend the meeting.

Then, the Propriety and Elections Manager detailed the application in question, stating:-

- That Ffestiniog Town Council needed to consider whether they wished to accept Barnardo's offer to transfer the building to the Council's ownership. Barnardo's owned the building and operated from one part of it, whilst the other part had been let to the 'O Law i Law' nursery.
- The Clerk had confirmed that the situation was now public, and the matter was no longer confidential as noted in the application form.
- That Councillor Morwenna Pugh had no interest in the building itself but has a personal and prejudicial connection.
- That the Councillor had grandchildren who attended the childcare provision in the building which was run by one of the tenants in the building.
- If the Committee wished to approve the application, it should be satisfied that the member had a specific role or expertise to contribute to the field.

The Committee agreed to approve the application under paragraph (dd) of the circumstances where dispensations could be approved. It was noted that Councillor Morwenna Pugh was the only female member of the council and therefore the Council believed that this unique perspective that could be offered in the particular circumstances of this case would not otherwise be available to the council.

This meant therefore that Councillor Morwenna Pugh would be required to declare her interest at the meeting, explaining that it was a prejudicial interest but that she had received dispensation by the Standards Committee to speak but not vote. The Councillor would also be required to leave the room after contributing to the discussion.

**RESOLVED**
**To approve dispensation to speak but not to vote on the matter whenever the matter arises.**

The meeting commenced at 10.30am and concluded at 11:10am.

| Pwyllgor : | Pwyllgor Safonau |
|---|---|
| **Dyddiad :** | **9 Mehefin 2025** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2024-25** |
| **Awdur :** | **Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Gweithredu :** | **Cynnig sylwadau a chymeradwyo'r adroddiad** |

**Cefndir**

1. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn. Penderfynodd y Pwyllgor y dylid gwneud hyn fel modd o godi proffil y Pwyllgor a hyrwyddo ei waith.

2. Diwygiwyd Deddf Llywodraeth Leol 2000 gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan ei gwneud yn ddyletswydd statudol bellach i bwyllgorau safonau adrodd i'w awdurdod. Rhaid gwneud hyn cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, mewn perthynas a'r flwyddyn honno (h.y. y cyfnod o 12 mis yn gorffen ar 31 Mawrth).

3. Rhaid i'r adroddiad ddisgrifio sut y mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn, gan yn benodol gynnwys crynodeb o :

- Yr hyn sydd wedi'i wneud i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol a roddwyd i'r pwyllgor gan Ddeddf 2000
- Adroddiadau ac argymhellion a wneir neu a gyfeirir at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl iddo ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath;
- hysbysiadau a roddir i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru

Rhaid i adroddiad gan bwyllgor safonau cyngor sir hefyd gynnwys:

- Asesiad y pwyllgor o'r graddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd statudol mewn perthynas â safonau ymddygiad.

Gall yr adroddiad gynnwys:

- Argymhellion i'r awdurdod ynghylch unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef.

4. Rhaid i'r awdurdod ystyried pob adroddiad blynyddol a wneir gan ei bwyllgor safonau cyn diwedd 3 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r awdurdod yn derbyn yr adroddiad.

5. Atodir Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 i sylw'r Pwyllgor.

**Argymhelliad**

6. Cymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.

DRAFFT

# ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD 2024 – 2025

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Mae safonau mewn bywyd cyhoeddus yn parhau yn bwnc sy'n cael cryn sylw ar hyn o bryd, gan bwysleisio pwysigrwydd ymddygiad unigolion ar gyfer cynnal hyder y cyhoedd yn y modd y gwneir penderfyniadau ar eu rhan gan eu cynrychiolwyr etholedig. Rwyf yn hyderus y gall y pwyllgor hwn barhau i roi cymorth ac arweiniad i aelodau Cyngor Gwynedd ac aelodau'r cynghorau cymuned, tref a dinas o fewn y sir.

Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i David Wareing am ei wasanaeth ymroddedig a'i gyfraniad gwerthfawr i waith y pwyllgor dros y ddeg mlynedd ddiwethaf. Ar yr un pryd, hoffwn hefyd estyn croeso cynnes i ddau aelod newydd y pwyllgor, Non Pugh a Sonya Khade, ac edrychaf ymlaen at weithio gyda nhw yn y dyfodol.

**Hywel Eifion Jones**
**Cadeirydd y Pwyllgor Safonau**

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

O edrych yn ôl ar y rhaglen waith a'r gweithgaredd yn y Pwyllgor Safonau mae cryn dipyn o faterion wedi eu cyfarch yn ystod y flwyddyn . Yn ogystal mae' Pwyllgor wedi ymdrin â cheisiadau am oddefebau mewn meysydd sydd o bwysigrwydd i'r Cynghorau ( Gwynedd thref) ynghyd a'r Aelodau oedd yn ymgeisio. Rhan bwysig o swyddogaeth y Pwyllgor yn cynnal y fframwaith foesegol.

Mae cefnogi a hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad yn rhan greiddiol o'r gwaith yma. Cyflawnir hyn drwy gyfuniad o gynghori ar gais, cyngor rhagweithiol a hyfforddi. Yn fy marn i mae hyfforddiant a dealltwriaeth o'r Cod Ymddygiad yn rhoi sylfaen i aelodau fod yn gyfarwydd â hanfodion y Cod. Mae hyn yn arbennig o amgylch y darpariaethau buddiannau personol, lle maen nhw'n codi a sut i ymateb. Nid yn unig o safbwynt priodoldeb ond hefyd o safbwynt cefnogi paratoi yn briodol ar gyfer cyfarfodydd a gweithredu eich swyddogaethau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag mae'n siomedig nodi eto fod nifer o aelodau yn parhau heb fynychu'r cyrsiau llawn sydd wedi eu cynnal. Byddaf yn cydweithio gydag Arweinyddion y Grwpiau i gyfarch hyn.

Yn y pen draw, consensws ynghylch y math o Gyngor yr ydym am ei weld a gweithio ynddo sy'n cynrychioli'r sylfaen orau. Nid yw diwylliant o briodoldeb yn llyffetheirio dadl wleidyddol iach a grymus. Ond, mae yn rhoi hyder i'r cyhoedd ynglŷn â'r math o ansawdd y llywodraethant sydd yng Ngwynedd. Mae hyn yn cefnogi canolbwyntio ein gwaith ar ymyriadau, arweiniad a chefnogaeth sy'n datblygu ac yn cynnal y safonau a ddisgwylir.

**Iwan Evans**
**Swyddog Monitro**
**Cyngor Gwynedd**

# CYFLWYNIAD

Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

**Adroddiad Blynyddol**

Diwygiwyd Deddf Llywodraeth Leol 2000 gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gan ei gwneud yn ddyletswydd statudol bellach i bwyllgorau safonau adrodd i'w awdurdod, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, mewn perthynas â'r flwyddyn honno (h.y. y cyfnod o 12 mis yn gorffen ar 31 Mawrth).

Rhaid i'r adroddiad ddisgrifio sut y mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn, gan yn benodol gynnwys crynodeb o :

- Yr hyn sydd wedi'i wneud i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol a roddwyd i'r pwyllgor gan Ddeddf 2000
- Adroddiadau ac argymhellion a wneir neu a gyfeirir at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

- Camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl iddo ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath;

- hysbysiadau a roddir i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru

Rhaid i adroddiad gan bwyllgor safonau cyngor sir hefyd gynnwys:

- Asesiad y pwyllgor o'r graddau y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau newydd statudol mewn perthynas â safonau ymddygiad.

Gall yr adroddiad gynnwys:

- Argymhellion i'r awdurdod ynghylch unrhyw fater y mae gan y pwyllgor swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef.

Rhaid i'r awdurdod ystyried pob adroddiad blynyddol a wneir gan ei bwyllgor safonau cyn diwedd 3 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r awdurdod yn derbyn yr adroddiad.

# AELODAU'R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau'r cynghorau cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

## Aelodau Annibynnol

**David Wareing (aelod 2015 -2025)**

Daeth aelodaeth David i ben eleni ar ôl deng mlynedd o wasanaeth i'r Pwyllgor. Symudodd David o Swydd Gaerhirfryn i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymddeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae'n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol.

**Aled Jones (aelod ers 2016)**

Brodor o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion yn wreiddiol yw Aled. Astudiodd radd mewn Cymraeg a Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio ym 1999, symudodd i Gaernarfon i weithio gyda chwmni cyfieithu Cymen a daeth yn gydberchennog ar y cwmni yn 2007. Bellach mae'n cyflogi tîm o bron 30 aelod staff a dros 20 o gyfieithwyr llawrydd eraill. Mae'n byw ym Mangor gyda Tegwen a'r plant, Cai a Beca. Yn ddiweddar, cwblhaodd gwrs Arweinyddiaeth a Rheoli Lefel 5 yr ILM ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor ac Abertawe. Nod y rhaglen yw creu amgylchedd i alluogi arweinwyr i ddatblygu busnesau arloesol a meithrin sgiliau arwain o'r radd flaenaf. Yn rhinwedd ei swydd fel cyfieithydd ar y pryd, mae ganddo brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ar bob lefel o lywodraethiant, o'r Undeb Ewropeaidd i gyngor cymuned, felly mae mewn sefyllfa dda i arsylwi ar ymddygiad a safonau gan adnabod yr arferion gorau.

**Hywel Eifion Jones (aelod ers 2019)**

Wedi'i eni a'i addysgu yn Nyffryn Clwyd, roedd Eifion yn uwch reolwr gyda Banc Barclays yn gwasanaethu 34 mlynedd mewn nifer o ganghennau ledled Gogledd a

Chanolbarth Cymru. Mae wedi ymgymryd â llawer o swyddogaethau gwasanaeth cyhoeddus gan gynnwys Cynghorydd Sir gyda Chyngor Ynys Môn ac aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae'n Ynad ar fainc Gogledd Orllewin Cymru, yn aelod o Fyrddau Pensiwn Gwynedd, Betsi Cadwaladr ac Adra. Mae hefyd yn aelod o Banel Dyfarnu Cymru sy'n penderfynu honiadau o dorri'r cod ymddygiad gan aelodau etholedig Cynghorau Sir a Chymuned.

**Mark Jones (aelod ers Rhagfyr 2022)**

Mae Mark yn byw ym Mangor ac yn gyn swyddog heddlu gyda 30 mlynedd o brofiad mewn amrywiaeth o rolau, gan gynnwys fel Pennaeth Safonau Proffesiynol Heddlu Gogledd Cymru. Gwasanaethodd fel Llywodraethwr Cymunedol ac Is-gadeirydd yn Ysgol Glanadda am 20 mlynedd. Mae hefyd yn gyn-gadeirydd Adra, lle mae'n parhau i wasanaethu fel aelod o'r Bwrdd.

## Penodi Aelodau Annibynnol Newydd

Daeth dwy sedd ar gyfer aelodau annibynnol yn wag, a hysbysebwyd y swyddi gweigion yn unol â'r darpariaethau statudol a derbyniwyd tri chais.

Sefydlwyd Panel Penodi, a oedd yn cynnwys Mr Eifion Jones , Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, y Cynghorydd Cymuned Richard Parry Hughes (Aelod Cymunedol o'r Pwyllgor Safonau), Cynghorwyr Gwynedd Cyng. Beca Roberts Cadeirydd y Cyngor a'r Cynghorydd Anne Lloyd Jones Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth a Mr Griffith Jones fel aelod lleyg statudol .

Bu'r Panel, gyda chefnogaeth a chyngor y Swyddog Monitro, yn cyfweld â'r ymgeiswyr ac ar ôl ystyried y meini prawf a nodir yn y fanyleb person ar gyfer y rôl, argymhellodd y Panel benodi Non Gibson a Sonal Khade . Cadarnhawyd y penodiadau gan gyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 1 Mai 2025.

**Non Gibson**

Mae Non yn byw ym Methel, Arfon gyda dros 23 o flynyddoedd o brofiad fel yn yr Heddlu gan gwblhau ei gyrfa fel rhingyll. Mae wedi gweithio ar ystod o faterion a Chadeirio Tîm Ymyrraeth Cynnar ynghyd a gweithio ar faterion amlasiantaethol ac wrth gwrs profiad o weithio o fewn y gyfundrefn cyfiawnder .

**Sona Khade**

Mae Sonal yn byw ym Mhwllheli a gyda chefndir mewn cyllid a rheolaeth cytundebau yn y sector gyhoeddus. Bellach yn hunan gyflogedig. Mae wedi gweithio ar lefel uchel o fewn llywodraeth leol ac iechyd gan arwain ar brosiectau a materion archwilio.

## Aelod Pwyllgor Cymunedol

**Cynghorydd Richard Parry Hughes (aelod ers 2017)**

Magwyd Richard ar fferm yn Llanaelhaearn ac aeth i Ysgol Ramadeg Pwllheli, Coleg Amaethyddol Glynllifon ,a Choleg Seale Hayne (Prifysgol Plymouth) . Mae ganddo ôl radd mewn Rheolaeth Fferm. Bu yn gweithio i bartneriaeth filfeddygon yn Chwilog am dair blynedd ac yn ddarlithydd rhan amser yng Ngholeg Glynllifon, cyn prynu fferm Penfras Uchaf Llwyndyrys lle bu ei deulu yn denantiaid arni am dros dri chan mlynedd. Mae'n briod ac Eleri ac mae ganddynt dri mab. Yn gyn arweinydd Cyngor Gwynedd, mae yn dal i ffermio. Mae ganddo brofiad helaeth o bwyllgorau gan ddal swyddi fel cadeirydd Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru cyn ymgymryd â chael ei ethol fel aelod o gyrff cyhoeddus. Bu yn aelod o Gyngor Sir Gwynedd o 1992 hyd 1996 ac yn aelod o Gyngor Gwynedd o 1996 i 2008. Bu'n arwain Cyngor Gwynedd o 2003 i 2008 a hefyd yn lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar yr Amgylchedd a Chynllunio yn ystod y cyfnod yma. Mae'n aelod brwd o Gwmni Drama Llwyndyrys a chefnogwr amryw o gymdeithasau eraill lleol megis, Antur Aelhaearn a Chyfeillion Eglwys Carnguwch. Mae'n gweithio'n wirfoddol fel gweithiwr achos i'r Farm Community Network . Mae'n aelod o Gyngor Cymuned Llannor ers 1992.

## Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Beth Lawton (aelod ers 2017)**

Mae Beth yn byw ym Mryncrug ac yn berchen ffatri leol. Mae'n Gynghorydd Sir dros ardal Bro Dysynni sydd yn cynnwys pentrefi Bryncrug, Abergynolwyn a Llanegryn. Mae hefyd yn Gynghorydd Cymuned ac yn gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn. Mae'n weithgar ar sawl pwyllgor yn y gymuned yn cynnwys Carnifal Abergynolwyn, Ffair Wledig Bryncrug, Pwyllgor Apêl Ysbyty Tywyn a llawer eraill. Mae yn aelod o Ferched y Wawr ac yn arwain yn Eisteddfod Abergynolwyn. Mae yn aelod o Bwyllgor Craffu Gofal a Thai a Phwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd ac wedi bod yn Gadeirydd ar y ddau bwyllgor ers bod yn aelod. Mae hefyd yn gyfarwyddwr a Chadeirydd Cwmni Hamdden Byw'n Iach.

**Cynghorydd Anne Lloyd-Jones (aelod ers 2017)**

Mae Anne yn byw ac yn rhedeg busnes twristiaeth fferm yn Nhywyn, ac mae wedi cynrychioli Tywyn ar Gyngor Gwynedd ers 1995 a chyn hynny roedd yn aelod o Gyngor Dosbarth Meirionnydd am wyth mlynedd.
Etholwyd hi gyntaf fel aelod Gyngor Tref Tywyn yn 1985 a bu'n Faer yn 1991 , ac eto yn 2004 a bu'n Gadeirydd Cyngor Gwynedd yn 2009. Mae hi'n gyn Gadeirydd pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ac aelod sefydlol o Gartrefi Cymunedol Gwynedd.

Roedd hi'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Meirionnydd, ac yn Gadeirydd presennol Cronfa Apêl Ysbyty Tywyn a'r Cylch.

Mae hi'n aelod ac yn gyn-gadeirydd Ysgol Penybryn ac yn aelod ar gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Tywyn.

Roedd Anne yn Gadeirydd Twristiaeth Canolbarth Cymru rhwng 2001-2016, yn aelod sefydliadol ac yn gyn-lywydd a Thrysorydd Clwb Inner Wheel Tywyn a bu'n Drysorydd cangen leol yr NSPCC ers 1989.

Mae Anne yn briod â John ac mae ganddyn nhw dair merch a dwy wyres sy'n efeilliaid.

**Cynghorydd Dewi Owen (aelod ers 2022)**

Mae Dewi yn ffermio yn Aberdyfi, ac wedi bod yn Gynghorydd Sir dros Aberdyfi a Phennal ers pymtheg mlynedd, ac ar Gyngor Cymuned Aberdyfi ers pum mlynedd ar hugain. Cafodd ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd yn 2014. Mae Dewi wedi bod yn Gadeirydd ar sawl pwyllgor craffu, ac ar hyn o bryd yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar Gyngor Gwynedd, ac wedi ymuno gyda'r Pwyllgor Safonau ers 2022.

Mae Dewi yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Tywyn, ac yn aelod o sawl pwyllgor lleol, fel Sioe Sir Meirion, Undeb Amaethwyr Cymru ac 'Aberdyfi Advertising & Improvements Committee.

## Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro'r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

**Manylion Cyswllt**

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. E-bost: IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru Ffôn (01286) 679015
- Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau a Dirprwy Swyddog Monitro. E-bost: sionhuws@gwynedd.llyw.cymru Ffôn: (01286) 679168

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2024 - 2025

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

## Achosion fu gerbron y Pwyllgor

Ni chyfeiriwyd adroddiad ar gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y pwyllgor gan yr Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn.

## Cwynion eraill

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2.**

## Goddefebau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

Derbyniwyd cais gan aelod o Gyngor Tref yn gofyn am ganiatâd i gymryd rhan mewn trafodaeth ar ddyfodol adeilad cymunedol, er bod ganddi gysylltiadau â rhai o ddefnyddwyr presennol yr adeilad allai gael eu heffeithio gan benderfyniad y cyngor. Caniatawyd y cais yn rhannol gan ganiatáu'r aelod i siarad ond nid i bleidleisio ar y mater. Byddai angen iddi ddatgan bodolaeth y buddiant a'r oddefeb yn y cyfarfod, a gadael yr ystafell ar ôl gorffen cyfrannu i'r drafodaeth. Caniatawyd y cais gan fod y Pwyllgor o'r farn na fyddai'r persbectif unigryw y gallai'r aelod gynnig yn amgylchiadau penodol yr achos yma, ar gael fel arall i'r cyngor.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol Cymru

Mae Fforwm Genedlaethol Pwyllgorau Safonau Cymru bellach wedi ei sefydlu, er mwyn rhannu arfer da a chydlynu ymarfer a chreu rhwydwaith cymorth ar gyfer cadeiryddion. Mae cadeiryddion holl bwyllgorau safonau Cymru yn mynychu'r cyfarfodydd ynghyd â chynrychiolaeth o Swyddogion Monitro i ddarparu cyngor proffesiynol. Darperir yr ysgrifenyddiaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Hyfforddiant i Aelodau Cyngor Gwynedd

Cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddi rithiol ar y Cod Ymddygiad gan y Swyddog Monitro, un ym mis Ebrill ac un ym mis Rhagfyr. Roedd y rhain yn gyrsiau dilynol i roi cyfle i aelodau nad oeddent wedi mynychu digwyddiadau hyfforddi blaenorol fynychu. Mae'r rhain wrth gwrs yn ofynion hyfforddi craidd dynodedig. Yn ogystal, mae recordiad o'r cwrs Mis Rhagfyr ar gael ar-lein fel ffordd o fodloni'r gofyniad Yn anffodus, mae'n parhau i fod yn wir nad yw sawl aelod wedi ymgymryd â'r hyfforddiant hwn eto.

## Cefnogaeth i Aelodau Cynghorau Cymuned , Tref a Dinas

Mae 3 elfen o gefnogaeth y gellir ei gynnig i aelodau a chlercod cynghorau cymuned ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad:

1. **Cyngor ar faterion penodol** - drwy gysylltu gyda'r Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro.

2. **Gwefan Cyngor Gwynedd** - Tudalen Pwyllgor Safonau yn cynnwys o wybodaeth a chanllawiau yn ogystal â dolenni i wefannau eraill defnyddiol.

3.**Hyfforddiant** - y bwriad yw cynnal hyfforddiant rhithiol ar ffurf 'webinar'. Byddai hyn yn creu adnodd y gallai aelodau ei wylio pan yn gyfleus iddynt yn hytrach na gorfod dibynnu ar sesiynau mewn mannau ac ar amseroedd penodol.

Dechreuwyd ar raglen o sesiynau hyfforddiant rhithiol eleni. Cynhaliwyd 2 sesiwn ym mis Mawrth, ac estynnwyd gwahoddiad i aelodau a chlercod cynghorau cymuned ardal Arfon. Amcan y sesiwn yw galluogi aelodau a chlercod i gael dealltwriaeth o hanfodion y Cod Ymddygiad, arfogi aelodau i weithredu o fewn y fframwaith ac amlygu lle i gael arweiniad a gwybodaeth bellach. Mae'n cynnwys cyflwyniad a chyfle i holi cwestiynau a thrafod wedyn. Mynychwyd y sesiynau gan gyfanswm o 44 aelodau a chlercod yn cynrychioli 9 cyngor cymuned.

Y bwriad yw cynnal mwy o sesiynau yn ystod y flwyddyn i ddod i gynnwys cynghorau ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd hefyd. Bydd y cyflwyniad hefyd yn cael ei recordio fel y bydd ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd.

## Dyletswydd Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol

yn ofynnol i arweinydd a grŵp gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp. Diffinnir "grŵp" at y diben hwn fel 2 neu fwy o aelodau sy'n rhoi hysbysiad i'r Swyddog Priodol eu bod yn dymuno cael eu trin fel grŵp at ddibenion gofynion cydbwysedd gwleidyddol a dyrannu seddi ar Bwyllgorau'r Cyngor.

Mae'r canllawiau'n ei gwneud yn glir nad yw'r ddyletswydd hon yn gwneud arweinwyr grŵp gwleidyddol yn atebol am ymddygiad eu haelodau, gan fod

ymddygiad yn fater o gyfrifoldeb unigol. Fodd bynnag, mae ganddynt rôl resymol i gymryd camau o ran cynnal safonau, gosod esiampl, defnyddio eu dylanwad i hyrwyddo a diwylliant cadarnhaol, bod yn rhagweithiol wrth hyrwyddo safonau ymddygiad uchel yn eu grŵp a mynd i'r afael â materion cyn gynted ag y byddant yn codi. Petai arweinydd grŵp gwleidyddol yn methu ag ymwneud gyda'r ddyletswydd newydd mewn ffordd ystyrlon, gellir bosib ystyried ei bod yn dod ag anfri ar eu swydd , ac yn debygol o fod yn torri'r Cod.

Mae adran 62(3) o Ddeddf 2021 yn diwygio adran 54 o Ddeddf 2000 i ymestyn y swyddogaethau Pwyllgor Safonau i gynnwys monitro cydymffurfiaeth gan arweinwyr gwleidyddol grwpiau sydd â'r ddyletswydd newydd i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau o eu grŵp. Dylai arweinwyr grwpiau a'r Pwyllgor Safonau gytuno ar ffurf ac amlder adroddiad o bob arweinydd grŵp i'r Pwyllgor, a fyddai wedyn yn ystyried pob adroddiad a Rhoi adborth i arweinwyr y grŵp. Rhaid i'r Pwyllgor Safonau hefyd ddarparu cyngor a hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau ar y ddyletswydd newydd. Ar ddechrau pob Tymor Cyngor dylai hyn ddigwydd o fewn chwe mis i'r etholiad a dylid ei adolygu o leiaf bob blwyddyn. Mae'r canllawiau hefyd yn awgrymu y gallai'r Pwyllgor Safonau gwrdd â grŵp arweinwyr o bryd i'w gilydd i adolygu trefniadau.

Ym Mis Tachwedd 2023, cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ag arweinwyr y tri grŵp gwleidyddol ar y Cyngor - Plaid Cymry , Grŵp Annibynwyr a Rhyddfrydwyr/Llafur i gytuno sut y dylid monitro'r ddyletswydd hon a natur ac amlder y wybodaeth y dylid ei chyflwyno i'r Pwyllgor. Dyma bellach yw sail cynnal a monitro'r drefn.

Yn ystod y flwyddyn yma llwyddwyd i gynnal cyfarfod rhwng yr Arweinyddion Grwpiau a'r Swyddog Monitro. Cafwyd cyfarfod hefyd rhwng y Cadeirydd y Swyddog Monitro ac Arweinydd Grŵp Plaid Cymru wedi ei phenodiad i drafod y trefniadau. Mae'r drefn wedi ei chynnal eleni er ei fod wedi gorfod addasu i amgylchiadau. Mae trefn o gyfarfydd eisoes wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ar y llaw arall mae'r berthynas weithio gyda phob Arweinydd yn gadarnhaol a chefnogol . Er bod y sefyllfa ynglŷn â mynychu hyfforddiant yn siomedig gellir bod yn hyderus fod yr Arweinyddion yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi datrys y sefyllfa yma. Mae'r berthynas gadarnhaol yma yn rhoi hyder y gellir adeiladu ymhellach ar fanteision y drefn newydd.

**Atodiad 1**

## RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2024-2025

**17 Mehefin 2024**

- Hunan Asesiad o waith y Pwyllgor yn ystod 2023/24
- Cymeradwyo Rhaglen Waith ar gyfer 2024/25
- Cymeradwyo adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2023/24
- Derbyn adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau

**4 Tachwedd 2024**

- Derbyn adroddiad ar y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch
- Derbyn adroddiad ar y Gofrestr Datgan Buddiant
- Derbyn yr adroddiad ar Adolygiad Annibynnol o Ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Gwynion Cod Ymddygiad
- Ystyried Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon 2023/24
- Cofnodion Fforwm Cenedlaethol Pwyllgorau Safonau
- Derbyn adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau

**17 Chwefror 2025**

- Dyletswydd Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol a’r Pwyllgor Safonau. (Gwahoddir Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol i’r Cyfarfod)
- Rhaglen Waith Arfaethedig 2025 -2026
- Derbyn adroddiad ar hyfforddiant i gynghorau cymuned

- Derbyn adroddiad rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau

- Ystyried Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru 2023/24

**202307903**

Bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant ac wedi pleidleisio ar fater lle'r honnwyd bod ganddi fuddiant personol.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio. Roedd un o'r cysylltiadau honedig yn awgrymu bod gan yr aelod fuddiant yn y mater a drafodwyd. Serch hynny roed yr aelod wedi datgan y buddiant yn y gorffennol ac roedd o'r farn nad oedd y buddiant yn berthnasol yn y mater penodol y tro hwn. Roedd y methiant yn ddigwyddiad ynysig ond atgoffwyd yr aelod o'r angen i ystyried ac adolygu ei dyletswyddau o dan y Cod Ymddygiad. Er y galli'r mater fod yn torri'r cod ni fyddai ymchwiliad yn y budd cyhoeddus.

---

**202307940**

Bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant ac wedi pleidleisio ar fater lle'r honnwyd bod ganddi fuddiant personol. Hefyd honnwyd ei bod wedi gwneud datganiadau yn ystod y cyfarfod nad oeddynt yn wir.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio. Nid oedd tystiolaeth wedi ei gyflwyno gefnogi'r honiadau.

---

**202310118**

Bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant ac wedi cymryd rhan mewn trafodaeth a phleidleisio ar fater lle'r honnwyd bod ganddi fuddiant personol.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio gan fod y materion a godwyd yn y gŵyn yma eisoes yn destun ymchwiliad ar wahân, ac ni fyddai felly yn y budd cyhoeddus i ymchwilio iddynt.

---

**202310119**

Bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant ac wedi cymryd rhan mewn trafodaeth a phleidleisio ar fater lle'r honnwyd bod ganddo fuddiant personol. Byddai'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr achwynydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymchwiliad arall.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio gan bod y materion a godwyd yn y gŵyn yma eisoes yn destun ymchwiliad ar wahân, ac ni fyddai felly yn y budd cyhoeddus i ymchwilio iddynt. Byddai'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr achwynydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymchwiliad arall.

---

**202400306**

Ymddygiad aelod o gyngor tref mewn cyfarfod o'r Cyngor ac wrth gynnal ymchwiliad yr honnwyd oedd yn ddiangen i ymddygiad swyddogion arferai reoli busnes ar ran y cyngor.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio. Dim tystiolaeth ddigonol wedi ei gyflwyno i gefnogi'r honiadau.

---

**202401290**

Bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant mewn cyfarfod o'r cyngor llawn

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio gan fod y materion a godwyd yn y gŵyn yma eisoes yn destun ymchwiliad ar wahân, ac ni fyddai felly yn y budd cyhoeddus i ymchwilio iddynt. Bydd y dystiolaeth yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymchwiliad hwnnw.

---

**202401291**

Bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant ac wedi pleidleisio ar fater lle'r honnwyd bod ganddi fuddiant personol oedd yn rhagfarnu.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio gan fod y materion a godwyd yn y gŵyn yma eisoes yn destun ymchwiliad ar wahân, ac ni fyddai felly yn y budd cyhoeddus i ymchwilio iddynt. Bydd y dystiolaeth yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymchwiliad hwnnw.

---

**202401342**

Cwyn bod aelod o gyngor tref wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn ystod cyfarfod o'r cyngor drwy gyfeirio at 2 aelod o'r cyngor oedd dan ymchwiliad gan yr Ombwdsmon

**Penderfyniad**

Er y gwerthfawrogwyd y gallai'r cyhoeddiad fod wedi achosi pryder a/neu embaras i'r aelodau oedd yn destun ymchwiliad, ym marn yr Ombwdsmon, ar y cyfan, nid oedd digon o dystiolaeth i awgrymu bod yr Aelod yn rhannu manylion preifat neu gyfrinachol am y cwynion. Ystyriwyd nad oedd yr ymddygiad a ddisgrifiwyd yn dechnegol yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac felly nid oedd yn torri'r Cod.

---

**202403031**

Bod aelod o gyngor tref wedi methu gadael yr ystafell pan yn ystod trafodaeth ar fater yr oedd wedi datgan buddiant yn ei gylch.

**Penderfyniad**

Er yr ymddangosai fod yr ymddygiad yn torri'r Cod penderfynwyd peidio ymchwilio gan fod cwyn yn erbyn yr aelod mewn perthynas â'r buddiant eisoes yn destun ymchwiliad ar wahân, ac ni fyddai felly yn y budd cyhoeddus i ymchwilio iddynt. Bydd y dystiolaeth yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymchwiliad hwnnw.

---

**Cwyn 202403620**

Bod aelod o gyngor tref wedi methu datgan buddiant ac wedi cymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio ar y mater.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio gan fod y materion a godwyd yn y gŵyn yma eisoes yn destun ymchwiliad ar wahân, ac ni fyddai felly yn y budd cyhoeddus i ymchwilio iddynt. Bydd y dystiolaeth yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymchwiliad hwnnw.

---

**Cwyn 202403617**

Bod aelod o gyngor cymuned wedi gwthio drws ffrynt yr achwynydd ar agor wrth iddo geisio ei gau ac wedi bygwth trais corfforol.

**Penderfyniad**

Peidio ymchwilio. Er gofyn i'r achwynydd nid ddarparodd dystiolaeth ddigonol am y digwyddiad nag i ddangos oes oedd yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd neu fel unigolyn preifat ar y pryd

---

**Cwyn 202404564**

Honnwyd gan aelod o'r cyhoedd fod aelod o gyngor tref wedi torri'r Cod Ymddygiad trwy bostio post amhriodol ar Facebook, ar dudalen grŵp cymunedol, y dywedodd yr achwynydd ei fod yn cael ei reoli gan yr aelod.

**Penderfyniad**

Ni ddarparwyd tystiolaeth ategol i gadarnhau mai'r Aelod sy'n gyfrifol am dudalen y grŵp, na'r post y cwynwyd yn ei gylch. Er y gellid fod wedi gofyn am dystiolaeth bellach ystyriwyd y mater yng nghyd-destun Erthygl 10 Confensiwn Hawliau Dynol sy'n gwarchod rhyddid mynegiant. Nid oedd yr Ombwdsmon yn cymeradwyo postio delweddau cartŵn o'r math hwn, oedd ymddangos yn gyfan gwbl allan o le ac yn amhriodol ar dudalen grŵp cymunedol ac a allai achosi tramgwydd i aelodau'r cyhoedd. Fodd bynnag, ni fyddai'n cael ei ystyried mor ddifrifol, sarhaus neu anfoesgar i fod yn gyfystyr â thorri'r Cod nac i warantu gosod cosb gosod, gan na fyddai hyn yn cael ei ystyried yn ymyrraeth gymesur â rhyddid mynegiant yr aelod o dan Erthygl 10.

---

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **9 Mehefin 2025** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

2.1 Ceir crynodebau o'r penderfyniadau a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon fel **Atodiad**

**3. Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth

**Atodiad**

**Pwyllgor Safonau 09.06.25 - Honiadau yn erbyn aelodau**

---

**Cwyn 202407933**

Bod aelod o gyngor tref wedi gwneud adroddiad ffug i'r Heddlu am yr Achwynydd.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio. Nid oedd yr aelod yn gweithredu fel aelod ar y pryd. Ystyriwyd ymhellach a allai fod wedi dwyn anfri. Daeth yr heddlu i'r casgliad bod tystiolaeth annigonol ac nad oeddent am fynd ar drywydd y mater. Nid oedd unrhyw awgrym na chasgliad felly bod yr adroddiad a wnaed yn ffug neu'n wastraff amser yr Heddlu.

---

**Cwyn 202408934**

Bod aelod o gyngor tref wedi ffugio cofnodion yn sgil ei chyflogaeth. Honnwyd hefyd ei bod wedi methu a datgan buddiant pan drafodwyd ariannu cynllun lleol.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio. Nid oedd yr aelod yn gweithredu yn rhinwedd ei swyddogaeth fel aelod ac nid oedd tystiolaeth wedi ei gyflwyno i awgrymu bod yr ymddygiad honedig, oedd heb ei brofi, wedi dwyn anfri ar y cyngor. Ni chyflwynwyd tystiolaeth chwaith i gefnogi’r honiad bod yr aelod wedi methu datgelu buddiant.

---

**Cwyn 202409315**

Cwyn gan aelod o’’r cyhoedd, bod aelod o gyngor tref wedi ymddwyn mewn modd ymosodol mewn cyfarfod gyda staff busnes lleol ac hefyd wedi methu datgelu bod gan aelod arall fuddiant personol mewn cysylltiad â’r busnes yng nghyfarfod blynyddol y cyngor. Hefyd honnwyd ei fod, mewn cyfarfod gwahanol, wedi gwneud cwynion blinderus i HMRC am y cwmni. Yn olaf honnwyd bod yr aelod wedi bod yn gweiddi a rhegi ar glerc y cyngor.

**Penderfyniad**

Peidio ag ymchwilio. Ni chyflwynywd tystiolaeth ddigonol i gefnogi’r honiadau.

---

**Cwyn 202409316**

Bod aelod o gyngor tref yn ceisio niweidio cwmni lleol drwy gamddefnyddio ei swydd fel cynghorydd. Honnodd yr Achwynydd fod yr Aelod wedi aflonyddu ar staff ac wedi ceisio eu

cael i adael eu swyddi. Honnwyd hefyd fod yr Aelod wedi gwneud cwynion maleisus a blinerus am y cwmni i Adnoddau Naturiol Cymru a'i fod wedi rhoi adroddiadau negyddol am y busnes yng nghyfarfodydd y Cyngor, tra'n methu ag adrodd ar newyddion cadarnhaol.

**Penderfyniad**

Dim ymchwiliad. Ni chyflwynwyd tystiolaeth i gefnogi'r gŵyn, ac ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio oni bai bod tystiolaeth weddol gref i awgrymu y gallai'r aelod dan sylw fod wedi torri'r Cod. Cyfrifoldeb yr Achwynydd yw darparu tystiolaeth uniongyrchol i gefnogi eu cwyn.

---

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **9 Mehefin 2025** |
| **TEITL** | **Hunan Asesiad Blynyddol** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

1. Amcan yr adroddiad yma yw cynnal hunan asesiad o waith ac allbynnau'r Pwyllgor yn ystod 2024-25

2. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau wedi gosod drwy statud yng Nghyfansoddiad y Cyngor .

   (a) Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig yr Awdurdod;

   (b) Cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (c) Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau;

   (ch) Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau;

   (d) Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr ac Aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad Aelodau.

   (e) a'r swyddogaethau penodol yma

   (f) Ymarfer y swyddogaethau perthnasol uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned

   (g) monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;

   (h) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

3. Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ystyried y swyddogaethau a restrir yn y golofn gyntaf ac yna nodi pa asesiad mae'n credu sy'n berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:

   Categori 1 – Fod y Pwyllgor wedi gwneud cynnydd sylweddol yn cyflawni'r swyddogaeth neu yn achos tasgau penodol nid yw'r angen i weithredu wedi codi.

Categori 2 - Fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth yn sylweddol

Categori 3 - Fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth ond mae angen rhoi sylw pellach.

Categori 4 - Nid oes tystiolaeth fod y Pwyllgor wedi gweithredu'r swyddogaeth ac mae sail i awgrymu fod angen rhoi sylw i’r maes.

Mae angen nodi’r dystiolaeth sy’n cefnogi’r categori mae’r Pwyllgor yn ei ddyfarnu. Mae’r golofn “Tystiolaeth” yn dangos peth enghreifftiau o dystiolaeth ond mae’n bosib y bydd aelodau’r Pwyllgor yn gallu ychwanegu ati.

4. O ddyfarnu categori i bob swyddogaeth a nodi’r dystiolaeth bydd yn bosib i’r Pwyllgor ddod i gasgliad ynglŷn â pha gamau ychwanegol sydd angen eu cymryd (os o gwbl). Mae’r golofn olaf yn cynnwys rhai awgrymiadau am gamau pellach fydd yn bwydo trwodd i raglenni gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol.

6. Atodiadau

Yn Atodiad 1 ceir hunan asesiad drafft er ystyriaeth gan y Pwyllgor

**ARGYMHELLIAD**

**Gofynnir i’r Pwyllgor gynnal Hunan Asesiad o’r perfformiad yn 2024-25**

**ATODIAD 1**

**HUNAN ASESIAD Y PWYLLGOR SAFONAU 2024-25**

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3/4) | Tystiolaeth | Camau pellach |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau | | Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi Fforwm Safonau Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill.<br><br>Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn | Parhau i fynychu a chefnogi |
| Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad | | Swyddog Monitro a'i dim yn darparu cyngor ac arweiniad mewn cyfarfodydd ac ar sail un i aelodau. | |
| Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad | | Dim achlysur wedi codi i ddiwygio'r Cod.<br><br>Ond, adolygwyd y Drefn Datrys Mewnol i gefnogi dyletswydd Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol dan 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000; | |
| Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad | | Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau<br><br>Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsman a Phanel Dyfarnu Cymru | Parhau i fonitro ystyried dulliau amgen o dderbyn gwybodaeth<br><br>Derbyn adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad | | Trefnwyd hyfforddiant Cod Ymddygiad llawn ar gyfer aelodau gyda'r sesiwn gyntaf yn cymryd lle yn ystod Rhagfyr a'r ail ym Mis Ebrill . Mae'r ddarpariaeth bellach ar gael ar lein. | Angen edrych ar ddarparu hyfforddiant pellach gan fod nifer o aelodau heb fynychu |
| Rhoi goddefebau i aelodau | | Ni ddaeth achlysur o benderfyniad ymlaen yn ystod y flwyddyn | |
| Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon | | Ni fydd achlysur berthnasol yn ystod y flwyddyn. | |
| Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyo gydag ymchwiliad | | Dim i'w adrodd | |
| Monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;<br><br>Cynghori hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny. | | Trefnwyd sesiwn ar y cyd gyda Arweinyddion Grwpiau ac aelodau y Pwyllgor Safonau i ystyried y dyletswydd<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Cadeirydd a'r Swyddog Monitro gyda Arweinydd newydd Grwp Plaid Cymru yng nghyd destun y dyletswydd.<br><br>Mae'r Swyddog Monitro wedi cyfarfod gyda'r Arweinyddion Grwpiau yn unigol i drafod materion Cod Ymddygiad | Bydd y trefniadau'n cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau statudol |
| Ymarfer y swyddogaethau perthnasol uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned | | Swyddog Monitro a'i dîm yn darparu cyngor ac arweiniad i gynghorau, clercod ac aelodau.<br><br>Mae rhaglen hyfforddiant wedi ei cychwyn yn ystod y flwyddyn gyda dau sesiwn | I barhau gyda'r trefniadau a chynnig adnodd ar lein.. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | wedi eu cynnal yn ystod Mawrth. | |

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad** | **9 Mehefin 2025** |
| **Teitl** | **Sesiynau Hyfforddiant i Gynghorau Cymuned** |
| **Awdur** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Mae hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr cymuned ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad yn rhan o swyddogaeth statudol y Pwyllgor Safonau. Mae'r Pwyllgor wedi adnabod yr angen i gynnal hyfforddiant o'r fath, ond wedi derbyn bod ei ddarparu wedi bod yn heriol yn ddiweddar fel canlyniad i ddiffyg adnoddau.

2. Mae gennym sesiwn wedi ei baratoi a'i dreialu ar gyfer cynghorau cymuned. Amcan y sesiwn yw galluogi aelodau a chlercod i gael dealltwriaeth o hanfodion y Cod Ymddygiad, arfogi aelodau i weithredu o fewn y fframwaith ac amlygu lle i gael arweiniad a gwybodaeth bellach. Mae'n cynnwys cyflwyniad gyda sleidiau a chyfle i holi cwestiynau a thrafod wedyn.

3. Cynhaliwyd sesiynau rhithiol ar 17/03/25 a 28/03/25 am 18:30**.** Roedd y cyflwyniad drwy'r Gymraeg ond gyda chyfieithu ar y pryd i'r Saesneg yn cael ei ddarparu ar gyfer y cyflwyniad a'r drafodaeth.

4. Oherwydd cyfyngiadau ymarferol ar y nifer all fynychu, yn enwedig o safbwynt caniatáu holi a thrafod, a'i bod yn anodd rhagweld faint fyddai â diddordeb mynychu, penderfynwyd gwahodd cynghorau cymuned ardal Arfon yn unig. Estynnwyd y gwahoddiad i aelodau a chlercod.

5. Dros y ddwy sesiwn mynychodd 44 o unigolion yn cynrychioli 9 o'r 17 cyngor cymuned yn ardal Arfon.

6. Atodir braslun o'r cyflwyniad er gwybodaeth.

7. Fe gynhelir sesiynau pellach y flwyddyn hon , a byddwn hefyd yn recordio cyflwyniad a'i osod ar wefan Cyngor Gwynedd fel bod modd ei wylio ar unrhyw adeg.

**Argymhelliad**

8. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.

1 **Y Cod Ymddygiad**
**Cynghorau Cymuned**

**The Code of Conduct**
**Community Councils**
Mawrth 2025

2 **Amcanion - Aims**

1
- Cael dealltwriaeth o beth yw'r Côd a'i hanfodion.
- Arfogi aelodau i weithredu o fewn y fframwaith
- 
- Amlygu lle i gael arweiniad a gwybodaeth bellach
- 

2
- Gain an understanding of the Code and its essentials
- 
- Empower members to work within the framework
- 
- Identify where to get further advice and guidance
- 

3 **Y Côd Ymddygiad i Aelodau**
**The Code of Conduct for Members**

1
- Egwyddorion a Chod Ymddygiad mae'n rhaid i bob Cyngor fabwysiadu
- Cod y mae'n rhaid i bob aelod arwyddo ymrwymiad i gadw ato
- Mae'n ofyn cyfreithiol
- Mae'n ddatganiad cyhoeddus o'r safonau ymddygiad a ddisgwylir wrth Gynghorwyr.
- 

2
- Principles and a Code of Conduct which every Council must adopt
- A code which every member must by law sign a commitment to abide by
- It is a legal requirement
- It is a public declaration as to the expected standards of conduct of Councillors.
- 

4 **Y Côd Ymddygiad i Aelodau**
**The Code of Conduct for Members**

1
- "mae nifer o gynghorwyr yn eu hystyried eu hunain yn wirfoddolwyr, a hwythau mewn gwirionedd yn aelodau etholedig â chyfrifoldebau statudol.... fel aelodau etholedig, rhaid i gynghorwyr gyrraedd y safonau a ddisgwylir ganddynt yn y Cod Ymddygiad".

Adroddiad Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru 2018

2 • "many councillors think of themselves as volunteers, when they are in fact elected members with statutory responsibilities...as elected members, councillors have to meet the standards expected of them in the Code of Conduct".

Independent Review Panel on Community and Town Councils in Wales reported in 2018

5 **Pryd mae'r Côd yn Berthnasol?**
**When is the Code Relevant?**

1
- Pan yn gweithredu, honni gweithredu neu rhoi'r argraff o weithredu fel aelod
- Mewn cyfarfodydd – beth yw "cyfarfod"?
- Unrhyw bryd os yn
  - Dwyn anfri
  - Defnyddio statws yn amhriodol
  - Camddefnyddio adnoddau awdurdod

2
- When acting, claiming to act or giving the impression of acting as a member
- In meetings - what is a "meeting"?
- At any time if
  - Bringing into disrepute
  - Using status improperly
  - Mis-using resources of the authority

6 **Ymddygiad Cyffredinol – General Conduct**

1
- Gosod safonau a disgwyliadau ymddygiad
- Ystyriaeth briodol i egwyddorion cydraddoldeb
- Dangos parch ac ystyriaeth at eraill
- Peidio bwlio nac aflonyddu
- Peidio â gwneud unrhyw beth sy'n peryglu didueddrwydd swyddogion
- Cyfryngau Cymdeithasol

2
- Sets standards and expectations of conduct
- Due regard to the principles of equality
- Show respect and consideration for others
- Not to bully or harass
- Not to do anything to compromise the impartiality of officers
- Social Media

7 **Rhyddid Mynegiant - Freedom of Expression**
**Erthygl 10 Siarter Hawliau Dynol Ewrop – Article 10 European Convention on Human Rights**

1 • Gwarchodaeth ar gyfer mynegiant 'gwleidyddol'
• Disgwyl i aelodau fod yn 'groendew'
• Ddim yn cynnwys bygythiadau i sefyllfa neu les swyddog
• Ddim yn esgus dros ymddygiad gwael!

2 • Protection for 'political' expression
• Members expected to have a 'thicker skin'
• Does not include threats to an officer's position or wellbeing
• Not an excuse for poor conduct!

8 **Ymddygiad Cyffredinol – General Conduct**

1 • Peidio dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod
• Peidio defnyddio safle/ adnoddau yn amhriodol
• Cyfrinachedd
• Penderfynu er budd y cyhoedd
• Ystyried cyngor swyddogion
• Peidio gwneud cwynion blinderus
• Rhoddion a lletygarwch

2 • Not to bring your office or authority into disrepute
• Not to use position/resources improperly
• Secrecy
• Decide in the public interest
• Regard to advice by officers
• No to make vexatious complaints
• Gifts and hospitality

9

10 **Buddiannau a Datgan – Interests and Declarations**

1 • Pwrpas - rhoi hyder i aelodau'r cyhoedd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er eu lles gorau, ac nid er lles aelodau awdurdodau na'u cysylltiadau personol agos
•
• Unrhyw gyfarfod lle mae mater yn cael ei drafod – swyddogion/aelodau yn bresennol
•

2 • Purpose - to give members of the public confidence that decisions are being taken in their best interests, and not in the best interests of members of authorities or their close personal associates
• Any meeting where a matter is discussed - officers/members present
•

11 **Buddiannau a Datgan – Interests and Declarations**

1 • Rhaid i chi ystyried ym mhob mater
• Rhestr - para.10(2)
• Cyflogaeth
• Cyrff Cyhoeddus
• Cymdeithasau ayyb
• Tir

- Teulu / Cysylltiad personol agos
-

2
- You must consider in all matters
- A list - para.10(2)
- Employment
- Public Bodies
- Associations etc.
- Land
- Family / Close personal association
-

12 ☐ **Buddiannau a Datgan – Interests and Declarations**

1
- Datgan – datgelu bodolaeth
- Buddiant sy'n rhagfarnu?
- Prawf gwrthrychol
- Gadael y cyfarfod
- Grantiau
- Goddefebau
- Mae gennyf gais am un o randiroedd y cyngor
-

2
- Declare – disclose existence
- Prejudicial interest?
- An objective test
- Leave the meeting
- Grants
- Dispensations
- I have an application for a council allotment.
-

13 ☐ **Staff**

1
- Cyflogwr
- Sefyllfa mewn perthynas â'r Cod
- Di-duedd
- Pethau ddim mynd gystal!

2
- Employer
- Position in relation to the Code
- Impartiality
- Things not going well!
-

14 ☐ **Cefnogaeth a Fframwaith - Support and Framework**

1
- Swyddog Monitro
-
- Pwyllgor Safonau

- Ombwdsmon

- 
- Panel Dyfarnu Cymru
- 

2 • Monitoring Officer
- 
- Standards Committee
- 
- Ombudsman
- 
- Adjudication Panel for Wales
- 

15 **Problemau - Problems**

1 • Torri'r Cod
- Cwyno
- Datrys
- 

2 • Breaching the Code
- Complaining
- Resolving
- 

16

17 **Gwybodaeth Bellach – Further Information**

1 Cyngor Gwynedd

Ombwdmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

✶*Canllawiau'r Ombwdsmon*

Panel Dyfarnu Cymru

Siôn Huws, Dirprwy Swyddog Monitro, Cyngor Gwynedd

- 

2 Cyngor  Gwynedd

The Public Services Ombudsman for Wales

✶*The Ombudsman's Guidance*

The Adjudication Panel for Wales

Siôn Huws, Deputy Monitoring Officer, Cyngor Gwynedd

- 
- 
- 
- 

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **9 Mehefin 2025** |
| **TEITL** | **Datgan a chofrestru buddiannau mewn cyfarfodydd** |
| **AWDUR** | **Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **GWEITHREDU** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn rhoi dyletswydd ar aelodau ddatgelu ar lafar gerbron unrhyw gyfarfod, fodolaeth a natur unrhyw fuddiant personol sydd ganddynt mewn busnes sy'n cael ei ystyried. Mae dyletswydd pellach i gofrestru'r buddiant hwnnw drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro sy'n cynnwys (a) manylion y buddiant personol, (b) manylion y busnes y mae'r buddiant personol yn ymwneud ag ef, a (c) llofnod. Yng Nghyngor Gwynedd pan fydd aelod yn datgan mewn cyfarfod pwyllgor bydd swyddog gwasanaethau democrataidd yn rhoi ffurflen bapur iddo/i, ac yn ei chasglu ar ddiwedd y cyfarfod.

2. Erbyn hyn caiff aelodau fynychu cyfarfodydd o bell. Mae dosbarthu ffurflenni i'r aelodau hynny sy'n ymuno yn rhithiol, a cheisio sicrhau eu bod eu dychwelyd yn golygu cryn dipyn mwy o waith i'r swyddogion. Mae cwblhau a dychwelyd ffurflen (drwy'r post, drwy law neu drwy sganio ac e-bostio) yn llawer mwy trafferthus i aelodau hefyd.

3. Rydym felly, gyda'r Gwasanaethau Democratiaeth a TG, wedi creu proses i gofrestru buddiannau ar-lein, gan ddefnyddio adnodd Microsoft Forms sydd eisoes gan y Cyngor. Unwaith y bydd aelod wedi datgan buddiant dilynir y broses ganlynol:

1) Swyddog yn anfon e-bost yn cynnwys dolen at yr aelod yn ystod y cyfarfod.
2) Aelod yn clicio'r ddolen a chwblhau a chyflwyno'r ffurflen ar-lein (gweler Atodiad am fersiwn brawf)
3) Y manylion yn cael eu cofnodi ar system iGwynedd (MS Sharepoint) y Cyngor ar gyfer y Gofrestr Buddiannau. Maer' safle iGwynedd yma o dan reolaeth y Swyddog Monitro. Cynhyrchir fersiwn PDF o'r ffurflen hefyd.
4) Y Gwasanaeth Democratiaeth yn derbyn e-bost i gadarnhau cwblhau'r ffurflen.
5) Aelod yn derbyn e-bost cadarnhad yn cynnwys linc 'darllen yn unig' i fersiwn PDF o'r ffurflen mae newydd gwblhau. Mi fydd blwch post Priodoldeb@gwynedd.llyw.cymru (sydd o dan reolaeth y swyddog Monitro) yn derbyn copi o'r e-bost yma hefyd.
6) Swyddogion democratiaeth yn cofnodi'r buddiant ar system Modern Gov fel ei fod yn ymddangos ar dudalen gwefan yr aelod (hyn yn digwydd eisoes)
7) Monitro ymatebion ac atgoffa aelodau sydd heb gwblhau'r ffurflen.

4. Y bwriad yw defnddio’r drefn yma ar gyfer pob aelod sy’n datgan, gan cynnwys y rhai sy’n bresennol yn yr ystafell gyfarfod. Rhagwelir y gellir cyflwyno’r broses ar gyfer cyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf.

**Argymhelliad**

5. Gofynnir i’r Pwyllgor dderbyn a nodi cynnwys yr adroddiad

# Hysbysiad o Fuddiant Personol / Notification of Personal Interest

Cyngor Gwynedd

Helo, Sion. Pan fyddwch chi'n cyflwyno'r ffurflen hon, bydd y perchennog yn gweld eich enw a'ch cyfeiriad e-bost.

* Gofynnol

1. Enw / Name *

Rhowch eich ateb

2. Enw'r Cyfarfod / Name of Meeting *

Dewiswch eich ateb

3. Dyddiad y Cyfarfod / Date of Meeting *

Rhowch ddyddiad os gwelwch yn dda (dd/MM/yyyy)

4. Rhif ac Enw'r Eitem / Number and Name of Item *

Rhowch eich ateb

5. Manylion y Buddiant Personol / Details of the Personal Interest *

Rhowch eich ateb

6. Ydy'r Buddiant yn un sy'n Rhagfarnu? / Is the Interest a Prejudicial one? *

- ◯ Nid oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu / It was not a preudicial interest
- ◯ Roedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu a gadewais y cyfarfod / It was a prejudicial interest and I left the meeting
- ◯ Roedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu ond derbyniais ollyngiad wrth y Pwyllgor Safonau / It was a prejudicial interest but I have received a dispensation from the Standards Committee

Microsoft 365

Mae'r cynnwys hwn yn cael ei greu gan berchennog y ffurflen. Bydd y data rydych chi'n eu cyflwyno yn cael eu hanfon at berchennog y ffurflen. Does dim cyfrifoldeb ar Microsoft ar gyfer arferion preifatrwydd na diogelwch ei gwsmeriaid, gan gynnwys rhai perchennog y ffurflen hon. Peidiwch byth â rhannu eich cyfrinair.

**Microsoft Forms** | Creu arolygon, cwisiau, a pholau piniwn wedi'u pweru gan AI Creu fy ffurflen fy hun

Preifatrwydd a briwsion | Amodau defnyddio

## Cyflwyno'r ffurflen / Submitting the form

Cadarnhaf fy mod i, yr aelod a enwir uchod, wedi cwblhau a llofnodi'r ffurflen hon / I confirm that I, the member named above have completed and signed this form

7. Arwyddwyd / Signed *

Nid yw'r cynnwys hwn yn cael ei greu na'i ardystio gan Microsoft. Bydd y data rydych yn ei gyflwyno yn cael ei anfon at berchennog y ffurflen.

Microsoft Forms